

Ysgol Babanod Abercaseg



Pennaeth:
Ceren Lloyd

‘Hwyl antur gaiff y plantos-yn eu hiaith
Wrth gydweithio’n agos
Yn ddyddiol mewn naws ddiddos
Yn glên mewn cymuned glos.’

Ieuan Wyn.

Mae’r ddogfen hon ar gael yn electroneg ar
wefan yr ysgol www.ysgolabercaseg.org

Annwyl Riant,

CROESO I YSGOL ABERCASEG

Wrth gyflwyno'r llawlyfr yma "Gwybodaeth i Rieni" fe garem estyn croeso cynnes i'ch plentyn i Ysgol Abercaseg.

Pwysleisiwn mai partneriaeth yw addysg rhyngom ni yma a chwithau yn y cartref. Mewn cydweithrediad fe obeithiwn y bydd cyfnod eich plentyn gyda ni yn un hapus ac y bydd yn datblygu'n addysgol a chymdeithasol.

Gobeithiwn y bydd y llawlyfr yma o gymorth i chi adnabod yr ysgol a'r modd y gallwch chi atgyfnerthu ein gwaith gyda'ch plentyn. Cyflwynir manylion am nifer o bethau sydd o bwys i gynorthwyo trefniadaeth yr ysgol ac i helpu'ch plentyn ymgartrefu'n fuan. Gellir darllen y llawlyfr hefyd ar wefan yr ysgol www.ysgolabercaseg.org

Er hynny nid oes modd cynnwys yr holl wybodaeth am yr ysgol yma ac fe nodir y gall rhai manylion newid rhwng amser cyhoeddi'r llawlyfr a dechrau'r flwyddyn ysgol. Fe'ch gwahoddir i drafod ei gynnwys (neu unrhyw beth nad ydyw wedi ei gynnwys) gyda mi trwy wneud trefniadau i ymweld â'r ysgol.

Yn gywir

Ceren Lloyd.

“RHAN 1

**YR YSGOL
A'R
CARTREF**

RHAN 1

YR YSGOL A'R CARTREF

- **Pwy i'w weld i siarad a hwynt a phryd**
- **Beth allwch hawlio i'w weld**
- **Sut mae cofrestru yn yr ysgol**
- **Sut y byddwn yn cysylltu â chi**
- **Staff yr ysgol**
- **Corff Llywodraethol yr ysgol**
- **Athroniaeth yr ysgol**
- **Gwisg ysgol**
- **Byrbrydau**
- **Cinio ysgol**
- **Clwb Brecwast**
- **Clybiau Cinio/Prynhawn/Ar Ôl Ysgol**
- **Gwylliau'r ysgol**

PWY I WELD I SIARAD A HWYNT A PHRYD

TREFN YMWELD

Mae croeso i chwi ymweld â'r ysgol unrhyw amser, ar ôl yn gyntaf wneud apwyntiad gyda'r Pennaeth. Rydym i gyd yn cydweithio er lles pob plentyn yn yr ysgol.

PARCIO

Gofynnir yn garedig i chwi, oherwydd rhesymau diogelwch, i beidio â defnyddio maes parcio'r Ysgol ac i ddefnyddio'r llwybr cyhoeddus ar bob achlysur i fynd a dod o'r ysgol.

AMSER YSGOL

Oriau'r ysgol yw o: 9.00am – 11.00am Meithrin
 9.00am - 3.00pm Babanod

Disgwylir i'r plant gyrraedd yr ysgol rhwng 8.50 a 8.55 y bore.
Os bydd rhieni'n debygol o fod yn hwyr yn codi eu plant yna mae'n ofynnol iddynt hysbysu'r ysgol o hyn.

CYSYLLTU Â'R YSGOL

Rhif ffôn: 01248 600194

E-Bost: cerenlloyd@gwynedd.gov.uk

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Mrs Orina Pritchard

Pennaeth: Mrs Ceren Lloyd

Dirprwy Bennaeth: Mrs Yvonne Griffiths

Gofalwraig: Mrs Sian Hughes

Cogyddes: Mrs Marian Davies

Clerc Gweinyddol a Chinio: Ms Edwina Griffith

AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD

Pennaeth Ysgolion
Adran Addysg
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH
01286672255

BETH ALLWCH EI HAWLIO I'W WELD / DOGFENNAU SYDD AR GAEL

Mae gennych hawl os y dymunwch i gael golwg ar nifer o ddogfennau megis Cylchlythyrau'r Swyddfa Gymreig, Polisiâu yr Awdurdod Addysg, Polisiâu a nodau y Corff Llywodraethu, adroddiadau AEM ar yr ysgol, meysydd llafur a chynlluniau gwaith ac adroddiad blynyddol i rieni.

Gallwch gysylltu â'r pennaeth yn ystod oriau ysgol i drefnu amser cyfleus i chi gael gweld y dogfennau.

Er bod manylion y llyfryn hwn yn gywir pan gyhoeddwyd hwy, ni ellir rhagweld na fydd unrhyw newid â all effeithio ar y trefniadau, cyn dechrau neu yn ystod y flwyddyn. Os bydd newidiadau neu ychwanegiadau yn digwydd, hysbysir cyfarfod blynyddol y Llywodraethwyr a'r rhieni o hynny, neu hysbysir rhieni trwy gylchlythyr.

Cofnodion ar ddisgyblion

Mae'r ysgol yn cadw gwybodaeth gwricwlaidd ar gyfer pob disgybl. Mae gan rieni hawl i weld y cofnodion yma am eu plentyn.

SUT MAE COFRESTRU YN YR YSGOL

POLISI DERBYN:- yn llawn amser ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed. Yn rhan amser ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed. Rhaid cyflwyno ceisiadau mynediad i'r AALI.

Anogir rhieni i gymryd diddordeb yn addysg eu plant ac i hyrwyddo pob ymdrech i feithrin perthynas iach rhwng yr ysgol â'r cartref. Gobeithia'r ysgol sicrhau cyd-weithriad a chefnogaeth y rhieni gyda'r holl weithgareddau ychwanegol â drefnir.

Yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 7 oed bydd plant Ysgol Abercaseg yn trosglwyddo i Ysgol Pen y bryn. Mae'r ddwy ysgol yn cyd-weithio'n glos iawn i sicrhau fod dilyniant naturiol wrth drosglwyddo o'r Ysgol Fabanod i'r Ysgol Iau. Bydd y plant yn cael treulio diwrnod yn Ysgol Pen y bryn cyn diwedd tymor yr Haf. Mae llawlyfr Ysgol Pen y bryn ar gael ar wefan yr ysgol os dymunwch weld copi.

SUT Y BYDDWN NI YN CYSYLLTU Â CHI

YR YSGOL A'R CARTREF

Pob tymor ysgol byddwn yn anfon bwletin sy'n nodi digwyddiadau'r ysgol am y tymor, prif ddyddiadau a gwyliau'r ysgol.

Byddwn yn anfon cylchlythyrau yn aml i rieni drwy law y postmon ardderchog hwnnw, sef eich plentyn! Ond er cystal y postmon, bydd weithiau'n anghofio gwagio'i sach! Carwn felly i chwi archwilio'i fag/bag a'i bocedi/phocedi yn ddyddiol.

Bydd copiau o'r cylchlythyrau a llythyrau ar gael i'w darllen ar wefan yr ysgol hefyd www.ysgolabercaseg.org ac ar y hysbysfwrdd tu allan.

Cyflwynir adroddiadau am waith y disgyblion unwaith y flwyddyn. Byddwch yn cael gwahoddiad i ddod i'r ysgol i drafod cynnydd eich plentyn dair gwaith y flwyddyn. Byddwn yn cysylltu â chwi os byddwn angen trafod materion eraill yn ymwneud â'ch plentyn.

Mae'n bwysig eithriadol fod rhieni yn cymryd diddordeb byw yng ngwaith eu plant er mwyn magu perthynas dda rhyngom. Cynhelir amryw o Nosweithiau Cwricwlaidd a rhaglenni hyfforddiant i rieni yn ystod y flwyddyn, lle bydd cyfle i chwi dderbyn arweiniad a syniadau ynglŷn â sut y gallwch chi gynorthwyo eich plentyn gartref.

Mae yna nifer o weithgareddau cymdeithasol yr hoffem i chi fanteisio arnynt hefyd i ddod i adnabod yr ysgol a'r athrawon a rhieni eraill. Mae gwaith **Cyfeillion yr Ysgol** yn bwysig iawn - beth am ddod draw i'n gweithgareddau neu ymuno â'r Pwyllgor?

Mae croeso i riant weld llyfr Cronfa'r Ysgol wedi gwneud trefniadau ymlaen llaw gyda'r Pennaeth.

STAFF YR YSGOL

Pennaeth

Mrs Ceren Lloyd

Dirprwy

Mrs Yvonne Griffiths

Staff Dysgu

Miss Eiliw Williams

Mrs Gwenda Roberts

Miss Angharad Mair Thomas

Mrs Mai Williams

Cymorthyddion

Mrs Karen Briggs

Mrs Sheryl Hughes

Miss Sian Griffith

Mrs Karen Doyle

Ms Nickola Marzelos

Ms Kelly Humphreys

Mrs Melissa Heaton

Miss Sara de Waart

STAFF ATEGOL

Mrs Sian Hughes

Miss Lisa Casey

Mrs Marian Davies

Mrs Eleri Williams

Ms Edwina Griffith

Mrs Karen Doyle

Gofalwraig

Glanhawraig

Cogyddes

Is-gogyddes/glanhawraig

Clerc Gweinyddol a Cinio

Arolygwr Amser Cinio

Arolygwr Amser Cinio

CORFF LLYWODRAETHOL YR YSGOLION

Cadeirydd	Orina Pritchard	Awurdurdod Addysg
Is gadeirydd	Rheinallt Puw	Cymunedol
Aelodau'r Pwyllgor	Ann Williams	Awdurdod Addysg
	Linda Brown	Awdurdod Addysg
	Manon Williams	Rhieni
	Marian Arman	Cymunedol
	Hedd Rhys	Cymunedol
		Cymunedol
	Gwyndaf Owen	Rhieni
	Emma Pritchard	Rhieni
	Cari Griffith	Rhieni
	Ceren Lloyd	Pennaeth
	Yvonne Griffiths	Athrawon
	Edwina Griffith	Staff Ategol
Clerc	Laura Millican	

Gellir cysylltu gyda Cadeirydd neu Clerc y Llywodraethwyr drwy'r Pennaeth.

ATHRONIAETH YR YSGOL

Mae'r ysgol yn bodoli i ddathlu cyflawniadau plant oherwydd bod addysg yn broses i wneud gyda phlant. Nid yw addysg yn bodoli i baratoi plant am ddim byd arall, ond i ymdrin a hwy lle mae nhw rwan a'u datblygu fel unigolion sydd yn gwerthfawrogi eu hamgylchfyd yn ei gyfanrwydd.

Rhaid cofio bod cyfrifoldeb gan yr ysgol am fwy na dysgu'r plant a rhaid felly meddwl amdanynt yn eu cyfanrwydd, fel bodau unigryw a chanddynt eu hanghenion arbennig eu hunain. Mae angen felly datblygu gwerthfawrogiad o'r moesol, y moesgar, y corfforol diwylliant, etifeddiaeth, traddodiadau a iaith y genedl Gymreig, a'i lle yn, a'i perthynas gyda gweddill y byd.

Er mwyn cyflawni hyn rhaid sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal ar draws y meysydd dysgu cwricwlaidd, profiadau real o'r ansawdd uchaf, yn y tymor byr, canolog a hir, yn ogystal ag adnoddau o'r ansawdd uchaf o fewn cynefin ac awyrgylch agored, croesawgar, chwaethus, hapus, teuluol a chartrefol.

Golyga hyn fod y plant yn cael eu hysbrydoli ac er mwyn iddynt gyrraedd a chyflawni eu llawn botensial rhaid addysgu plentyn i ddysgu ei hun drwy roi rhan weithredol iddi/o yn y broses honno, gyda gwaith ei hun a gwaith eraill. Rhaid pwysleisio'r pwysigrwydd o roi clust a sylw teilwng i bawb, gan bawb, a hefyd i blant cael cyfle i ymateb yn synhwyrol a gyda ymresymiad personol i amrywiol gynulleidfaeod.

Mae'n hanfodol bwysig parchu plant, eu syniadau a'u cynnyrch, drwy rannu eu llwyddiannau ag eraill, a datblygu hunan barch a hyder drwy osod esiampl o'r safon uchaf bosibl. Yn aml mae'r hyn mae plant, oedolion neu athro/athrawes yn ei wneud a'i ddweud yn dylanwadu ar blentyn yn fwy na cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Os yw plentyn yn gadael yr ysgol yn foesgar ac a pharch at ei hun, at eraill a'u heiddo ac at ei amgylchfyd yn ei gyfanrwydd, yna mae'r gallu i ddarllen, ysgrifennu, cyfrif a.y.y.b yn fonws. Pa fwyaf yw'r 'bonws' yw mesuriad llwyddiant ysgol.

Er mwyn cyflawni'r hyn oll mae'n rhaid cynllunio'n drwyadl polisïau, cynlluniau a dulliau dysgu ysgol gyfan a dosbarthiadau unigol, wedi ymgynghoriad rhwng a gyda'r athrawon, y llywodraethwyr a'r A.A.LL.

GWISG YSGOL

Mabwysiadwyd gwisg ysgol. Mae'r wisg yn cynnwys crys chwys coch tywyll a chrys polo gwyn, gyda sgert lwyd i'r genethod a throwsus llwyd i'r bechgyn. Yn yr Haf caniateir ffrog goch a gwyn (gingham) i'r genethod a throwsus byr i'r bechgyn. Disgwylir i'r plant fod wedi eu gwisgo'n lân a bod eu dillad yn cydymffurfio â'r wisg ysgol.

Gofynnwn i chwi am eich cydweithrediad gyda'r wisg ysgol.

Teimlir fod gwisg ysgol yn arwain at feithrin balchder yn yr ysgol ac ymdeimlad o berthyn iddi. Gallwch brynu'r wisg ysgol yn rhai o siopau dillad Bangor.

Sicrhewch fod enw eich plentyn wedi ei ysgrifennu neu ei bwytho ar bob dilledyn.

BYRBRYDAU

Ffrwythau/llysiau

Mae croeso i'r plant ddod â ffrwythau neu llysiau i'w bwyta yn ystod amser llefrith/dŵr neu gellir prynu ffrwythau yn yr ysgol am gôst o £1.25 yr wythnos. **Ni chaniateir bwyta melysion yn yr ysgol.**

Llefrith

Mae Cynulliad Llywodraeth Cymru yn talu am lefrith i blant ysgolion Cymru i'w yfed yn ystod y dydd yn yr ysgol. Mewn achos lle nad yw plentyn yn yfed llefrith, caniateir iddo/iddi yfed dŵr (**ni chaniateir unrhyw ddioid arall**).

Yfed dŵr

Gan ein bod yn rhan o Gynllun Ysgolion Iach Gwynedd rydym yn awyddus i'r plant ddod â photel o

ddŵr gyda hwy i'r ysgol er mwyn iddynt gael yfed dŵr yn ystod y dydd. Yn unol â chanllawiau 'Rheoli Haint ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd' anogir rhieni i lanhau poteli dŵr yn rheolaidd i leihau'r risg o halogi.

CINIO YN YR YSGOL



Pris cinio ysgol ar hyn o bryd yw £11 yr wythnos, £2.20 y dydd (bydd y pris yma'n cael ei adolygu bob mis Medi). Dylid talu'r pres o flaen llaw ar ddydd Llun mewn amlen gydag enw'r plentyn a'i dosbarth/ddosbarth yn glir arno.

Mae croeso i blant sy'n mynychu'r 'Clwb Cinio' gael cinio ysgol.

Gall eich plentyn ddod â cinio ei hun os dymunwch, ond peidiwch ag anfon poteli gwydr na chaniau diod os gwelwch yn dda. Rydym fel ysgol yn ceisio annog '**Bocsys Bwyd Iach**'- **h.y. dim mwy nag un siocled.**

HYLENDID BOCSYS BWYD

Mae bocsys cinio yn gallu darparu amgylchedd delfrydol i germau gwenwyn bwyd dyfu ynddynt. Mae hi felly'n bwysig bod rhieni/gofalwyr sy'n darparu bocsys cinio yn ymwybodol o bwysigrwydd hylendid bwyd da ac yn paratoi ac yn storio bwyd eu plant mewn modd diogel.

Yn unol â chanllawiau 'Rheoli Haint ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd' anogir rieni/gofalwyr i wneud y canlynol:

- golchi'ch dwylo a glanhau a diheintio arwynebau paratoi bwyd cyn i chwi drin bwyd ac ar ôl dod i gysylltiad â bwyd amrwd
- osgoi croes-halogi rhwng bwyd amrwd a bwydydd parod i'w bwyta
- defnyddio bocs cinio solet aerdyn y byddwch yn ei olchi a'i sychu'n drylwyr cyn ei ddefnyddio
- gwirio bod bwyd yn ffres a heb fynd heibio'r dyddiad olaf ar gyfer ei ddefnyddio neu'r dyddiad cyn yr hwn y mae ar ei orau
- paratoi bwyd yn ffres bob dydd (mae llai o amser storio'n rhoi llai o amser i'r
- germau dyfu)
- gwirio labeli ar fwyd i sicrhau bod bwyd yn cael ei storio ar y tymheredd cywir
- ystyried defnyddio pecyn rhew neu fag pwrpasol i gynorthwyo cadw cinio'ch plentyn yn oer
- atgoffa'ch plentyn i olchi ei ddwylo/dwylo cyn agor y bocs cinio.

Ni chaniateir newid o ginio ysgol i frechdanau (na brechdanau i ginio ysgol) yng nghanol wythnos.

CLWB BRECWAST

Cynhelir clwb brechwast yn yr ysgol bob bore lle caiff y plant frechwast iach a goruchwyliaeth dda. Mae'r clwb yn agored i holl blant Ysgol Abercaseg ac am ddim. Cychwynnir y sesiwn am 8:00 y.b. Ni fydd mynediad i blant sy'n cyrraedd ar ôl 8.30 y.b.

CLYBIAU CINIO / PRYNHAWN / AR ÔL YSGOL

Mae gennym glwb cinio (11am-1pm) a chlwb prynhawn (1pm-3pm) i ddisgyblion y dosbarth Meithrin, ynghyd â chlwb ar ôl ysgol i ddisgyblion ysgolion Abercaseg a Phen y bryn ar safle Ysgol Abercaseg.

Mae'r clybiau wedi eu cofrestru gyda AGGCC, felly mae modd defnyddio talebau gofal plant i dalu am y gwasanaeth.

Rhif ffôn y clwb:07818000415

Dyddiadau pwysig tymhorau a gwyliau 2016-17

Hydref 2016

- **Dechrau:** Dydd Iau, 1af o Fedi- i'r athrawon
- **Dechrau i'r plant:** Dydd Gwener, Medi'r 2il.
- **Hanner tymor:** Dydd Llun 24 Hydref - ddydd Gwener 28 Hydref
- **Gorffen:** Dydd Gwener, 16 Rhagfyr

Gwanwyn 2017

- **Dechrau:** Dydd Mawrth, 3 Ionawr
- **Hanner tymor:** Dydd Llun, 20 Chwefror - ddydd Gwener, 24 Chwefror
- **Gorffen:** Dydd Gwener, 7 Ebrill

Haf 2017

- **Dechrau:** Dydd Llun, 24 Ebrill
- **Calan Mai (Gŵyl banc):** Dydd Llun, 1 Mai
- **Hanner tymor:** Dydd Llun, 29 Mai - ddydd Gwener, 2 Mehefin
- **Gorffen:** Dydd Gwener, 21 Gorffennaf

Bydd yr ysgolion yn ail-agor ddydd Llun, 4 Medi, 2017 i athrawon, a dydd Mawrth, 5 Medi i ddisgyblion (i'w gadarnhau).

RHAN 2

CWRICWLWM
TREFNIADAETH
ASESU

RHAN 2
CWRICWLWM
TREFNIADAETH
ASESU

- **Y Cwricwlwm**
- **Datganiad o Amcanion**
- **Anghenion Dysgu Ychwanegol**
- **Cyfle Cyfartal**
- **Disgyblion ag anableddau**
/Cynllun Hygyrchedd
- **Y Cyfnod Sylfaen**
- **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**
- **Addysg Grefyddol**
- **Addysg Bywyd a Pherthnasoedd**
- **Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd**
Gwynedd
- **Polisi Iaith**
- **Asesu ac Adrodd**
- **Addysg Gorfforol**
- **Trefn Gwyno**
- **Codi Tâl am Weithgareddau**
- **Canlyniadau Asesu**

Y CWRICWLWM

Yn unol â gofynion Deddf Addysg 1986, mae'r Awdurdod Addysg wedi llunio, ac yn bwriadu adolygu'n rheolaidd, ddatganiad ysgrifenedig a'i bolisi mewn perthynas â'r cwricwlwm seciwlar. Dehonglir gofynion y Cwricwlwm Cyfnod Sylfaen yng nghyd destun athroniaeth a pholisïau presennol yr Awdurdod.

Pwrpas cyfundrefn addysg yw creu sefyllfaoedd a chyflenwi adnoddau fydd yn galluogi pob plentyn i dyfu yn bersonoliaeth lawn, i ddatblygu ac ymarfer ei holl ddoniau, fydd yn darparu ar eu cyfer yn ôl oedran, gallu a diddordeb, ac yn ei gymhwyso i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog, yn aelod fydd yn gallu cyfrannu iddi a derbyn oddi wrthi, a byw mewn heddwch a brawdgarwch gyda'i gyd-ddyn.

Y mae i'r datganiad cyffredinol hwn dair agwedd gydberthnasol:

- a) Galluogi pob plentyn i ddatblygu i'w lawn potensial.
- b) Sicrhau bod plentyn yn cael ei gyflwyno i'r etifeddiaeth Gymreig.
- c) Rhoi cyfle i bob plentyn ddatblygu fel aelod llawn o gymdeithas sy'n prysur newid.

AMCANION CYFFREDINOL

1. Meithrin meddyliau bywiog ac ymchwilgar, gan geisio galluogi'r plant ddatblygu er hyrwyddo eu twf eu hunain. Bod yn hyderus ynglŷn â'r pethau y gallant wneud, ac yn fodlon i ymgymryd â sialensau newydd, ac ar yr un pryd datblygu'r gallu i holi a dadlau'n rhesymegol ac ymroi i dasgau.
2. Ehangu eu hymwybyddiaeth gymdeithasol a'u cyfrifoldeb i'r gymdeithas maent yn byw ynddi er mwyn i'w dealltwriaeth ddyfnhau drwy barchu anghenion, safbwyntiau a galluoedd pobl eraill.
3. Meithrin synnwyr o ryfeddod, a datblygu eu cywreinrwydd a'u pleser mewn darganfod pethau newydd.
4. Meithrin gwerthoedd moesol personol, parch at werthoedd crefyddol, a goddefgarwch at hiliau a chrefyddau eraill a ffyrdd eraill o fyw.
5. Datblygu eu hymwybyddiaeth, gwybodaeth a'u gwerthfawrogiad o'u hamgylchedd i ddeall y byd maent yn byw ynddo a chyd ddibyniaeth unigolion, grwpiau a chenhedloedd.
6. Datblygu ymwybyddiaeth gwybodaeth y byd modern, ei dechnoleg a'i werthoedd.
7. Defnyddio iaith a rhif yn effeithiol.
8. Datblygu gallu'r plentyn i ddadansoddi tystiolaeth, ac i feddwl ymlaen beth fydd goblygiadau eu gweithredoedd.
9. Datblygu eu gallu i ofyn cwestiynau am phenomena newydd, i drafod problemau, a chanfod atebion mewn ffordd drylwyr a pharchus.
10. Gwerthfawrogi cyflawniadau a dyheadau dynol.
11. Rhoddi sylw neilltuol i bob plentyn sydd ag anghenion arbennig, e.e. y plentyn sy'n neilltuol o alluog, ac i'r rhai sydd ag amrywiol anfanteision.
12. Datblygu sensitifrwydd a gwerthfawrogiad esthetig a sgiliau hamdden yn y plentyn.
13. Helpu'r plentyn i fyw a gweithio gydag eraill ac i ddatblygu agweddau fydd yn ei alluogi / galluogi ef/hi i ddod yn aelod cyfrifol o'r gymuned.

Mae'n ofynnol i bob ysgol baratoi a datblygu cynllun cynhwysfawr, yn seiliedig ar ddogfen yr Awdurdod Addysg ac yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cyfnod Sylfaen. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys manylion am y cwrs addysg a'r modd y mae'n cael ei weithredu er mwyn sicrhau bod yr addysg a gyfrennir i'r disgyblion yn cyfarfod yn llawn â'r amcanion sydd yn y ddogfen.

DATGANIAD O AMCANION CWRICWLAIDD YR YSGOL

1. Datblygu eu sgiliau darllen, eu deallusrwydd a'u gwerthfawrogiad beirniadol o bob math o lyfrau, ac i ymgynraedd at wneud darllen yn weithgaredd naturiol a phleserus i barhau trwy eu bywydau. Pwysleisir rhyglrwydd a theimlad i'r hyn maent yn darllen. Ymestyn ystod, dyfnder a safon eu hysgrifennu. Galluogi'r plant i gyfathrebu'n glir, i drafod syniadau, teimladau a'u harsylwadau, gan ddefnyddio'r potensial yma yn arf effeithiol i ddatblygu teimladau, dealltwriaeth a'u syniadaeth.
2. Datblygu llawysgrifen ddarllenadwy, a'r safon uchaf mewn sillafu, llythrennu, cystrawennu, atalnodi a'r defnydd o eiriau.
3. Cyfathrebu'n glir a hyderus ar lafar mewn ffyrdd sy'n briodol ar gyfer amrywiol achlysuron a dibenion.
4. Ymestyn a chadarnhau eu gallu a'u parodrwydd i wrando ac ymateb i eiriau a synau gyda dealltwriaeth.
5. Dysgu sut mae cael gafael ar wybodaeth o wahanol ffynonellau, a chofnodi gwybodaeth a darganfyddion mewn amrywiol ffyrdd.
6. Cynhwyso medrau cyfrif yn gyflym ac yn gywir.
7. Datblygu eu cysyniadau a'u sgiliau mathemategol yn unol â photensial pob plentyn, a'u galluogi i ddirnad perthnasedd mathemateg yn y byd sydd o'u cwmpas.
8. Arsylwi ar bethau byw a phethau difwyd ac adnabod nodweddion megis patrwm a threfn.
9. Meistrolï syniadau gwyddonol sylfaenol.
10. Ymchwilio i ddatrysiadau a dehongli tystiolaeth dadansoddi a datrys problemau.
11. Meithrin ymwybyddiaeth o'u hunan a sensitifrwydd tuag at eraill, datblygu set o werthoedd moesol a'r hyder i wneud ac arddel barn foesol, a meithrin arferion hunanddisgyblaeth ac ymddygiad derbyniol.
12. Datblygu eu hymwybyddiaeth, gwybodaeth a'u gwerthfawrogiad o'u hamgylchedd. Bod yn ymwybodol o'r agweddau daearyddol, hanesyddol a chymdeithasol sy'n bodoli yn yr amgylchedd lleol. Dylid hefyd creu ymwybyddiaeth o'u treftadaeth genedlaethol.
13. Datblygu eu gallu i wneud pethau a'u dwylo, gan feithrin ynddynt sensitifrwydd wrth drin offer a deunyddiau a hunan reolaeth wrth drin arfau llaw i allu mynegi eu hunain drwy'r celfyddydau creadigol a mynegiannol.
14. Datblygu eu galluoedd corfforol - drwy feithrin ystwythder a chyd gysylltu corfforol, a hefyd meithrin hyder mewn gweithgareddau corfforol, a thrwy hyn y gallu i fynegi teimlad drwy symud.
15. Sicrhau, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth addysgol bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gynraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law.

Ysgol iau – h.y. pan fydd y plant yn trosglwyddo i Ysgol Pen y bryn

Cadarnhau a datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol, er mwyn sicrhau ei fod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd ac yn hyderus yn y ddwy iaith pan fo'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. (Gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer hwyrddyfodiaid.)

ADRODDIAD AR BOLISI ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

• Cyflawnwyd yr isod yn 2015-16:

1. Adolygwyd y polisi ADY. Darparwyd Addysg Arbennig i'r disgyblion hynny oedd angen sylw ychwanegol gan ddilyn patrwm rhestr argymhellion yr Awdurdod Addysg.
2. Trefnwyd cofrestr addysg arbennig yr ysgol a sefydlwyd taflenni a threfn o sgrinio, asesu anghenion y disgyblion, llunio cynlluniau addysg unigol (IEP) a phriodol ar eu cyfer a monitro ac arolygu cynnydd yn unol â'r rhestr argymhellion. Cafwyd sêl bendith yr Awdurdod ar y gofrestr a'r taflenni.
3. Pwrcaswyd adnoddau angenrheidiol. Bu monitro cyson o'r plant mwyaf galluog.
4. Fe benodwyd Llywodraethwyr gyda chyfrifoldeb am AAA i oruchwylio Anghenion Arbennig yn yr ysgol. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd i drafod datblygiadau.
5. Mae cyfleusterau i blant a phobl gydag anabledd corfforol yn yr ysgol.
6. Bu Cymhorthyddion Dosbarth ADY yn gweithio â phlant unigol a grwpiau bychan am gyfnodau'n wythnosol.
7. Sawl ymweliad gan Asiantaethau Allanol.

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL - CYNORTHWYO'R PLENTYN

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, bydd rhai plant yn cael anawsterau gyda'u gwaith e.e. dysgu darllen neu sillafu a bydd rhai plant yn alluog iawn. Mae gan yr ysgol gynllun i gynorthwyo plant o'r fath. Mae'r cynllun wedi ei seilio ar Ddeddfau Addysg 1993 a 2002 ac yn cynnwys y camau canlynol.



1. Os yw'r athro/athrawes o'r farn bod gan blentyn broblemau neu yn alluog iawn, yna bydd yn canfod ffyrdd o gynorthwyo'r plentyn. Bydd yr athro/athrawes yn cael sgwrs gyda'r rhieni.
2. Os yw'r athro/athrawes o'r farn nad yw'r plentyn yn gwneud cynnydd, yna bydd yn trafod y problemau gyda'r Cyd-gysylltydd Anghenion Arbennig - y sawl sy'n sicrhau bod y cynllun yn gweithio'n esmwyth yn yr ysgol. Yn yr ysgol hon, y cyd-gysylltwyr yw'r Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth. Yn dilyn trafodaethau gyda'r rhiant, bydd y plentyn yn cael ei osod ar y cofrestr Anghenion Addysgol Arbennig, sef Gweithredu gan yr Ysgol. Mae'r ysgol a'r rhieni yn llunio cynllun gwaith unigol arbennig ar gyfer y plentyn, â elwir yn CAU (Cynllun Addysg Unigol). Gallai hyn olygu rhoi sylw ychwanegol i'r plentyn. Mae hwn yn gam cadarnhaol wrth i'r ysgol a'r rhieni gydweithio i gynorthwyo'r plentyn. Edrychir ar faint o gynnydd a wnaed ar ôl cyfnod. Os bydd y problemau'n lleihau, bydd enw'r plentyn yn cael ei dynnu oddi ar y gofrestr.
3. Os deil problemau, gallai'r rhieni a'r ysgol benderfynu rhoi'r plentyn ar y cam nesaf; Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Golyga hyn bod yr ysgol yn ysgrifennu at yr Awdurdod Addysg yn gofyn Cyngor ynghylch sut i gynorthwyo'r plentyn. Fel arfer, mae Athro/Athrawes Ymgynghorol Anghenion Arbennig neu Seicolegydd Addysgol yn gweld y plentyn. Yn Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, mae'r ysgol a'r rhieni eto'n llunio Cynllun Gwaith Unigol arbennig ar gyfer y plentyn. Edrychir ar gynnydd ar ôl cyfnod. Os yw'r plentyn yn goresgyn y problemau, yna gellid gosod y plentyn yn ôl ar Gweithredu gan yr Ysgol neu hyd yn oed ei dynnu oddi ar y rhestr.
4. Os yw pawb sy'n ynghlwm yn teimlo bod angen cynnal asesiad manwl iawn o anawsterau'r plentyn, yna gellid penderfynu symud at Asesiad Statudol. Ar y cam hwn, mae gan yr Awdurdod Addysg ddull manwl iawn o gasglu gwybodaeth ynghylch y plentyn. Unwaith mae'r rhieni wedi cytuno ar y cam hwn, dechreuir gasglu gwybodaeth ac mae gan yr Awdurdod Addysg 6 mis i gasglu a pharatoi cynllun sy'n nodi ffyrdd o gynorthwyo'r plentyn (gelwir hwn yn Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig).
5. Os yw'r rhieni yn cytuno i gynllun yr Awdurdod, yna rhoddir y plentyn ar Ddatganiad (y cam uchaf). Os yw'r rhieni yn anghytuno yna mae dulliau penodol o drafod hyn gyda'r Awdurdod. Efallai y penderfynir hyd yn oed ddychwelyd y plentyn i Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy.

Trwy'r holl gamau hyn, gwahoddir y rhieni i drafod materion gyda'r ysgol a bydd yr ysgol yn darparu copïau o gynlluniau addysg unigol y plentynar eu cyfer. **Y nod bob amser yw bod yr ysgol a'r rhieni yn cydweithio i gynorthwyo'r plentyn.** Bydd yr ysgol hefyd yn cynnal nosweithiau agored anghenion arbennig penodol ddwy waith y flwyddyn ble trafodir materion o'r fath.

Gellir cael golwg ar bolisi anghenion arbennig yr ysgol yn yr ysgol o ofyn i'r Pennaeth. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, gofynnwch i'r Pennaeth neu'r Dirprwy os gwelwch yn dda.

CYFLEOEDD CYFARTAL

Prif athroniaeth ac amcanion yr ysgol yw bod gonestrwydd, urddas a gwerth pob unigolyn o'r pwysigrwydd mwyaf.

Ymdrechir i roi cyfle cyfartal i bob disgybl ac athro/athrawes ar bob adeg heb wahaniaethu ar sail rhyw, crefydd, lliw, iaith ac anabled.

DISGYBLION AG ANABLEDDAU/CYNLLUN CYDRADDOLDEB ANABLEDD

Mae cynllun yr ysgol yn sicrhau mynediad rhwydd i ddisgyblion a rhieni sydd ag anabledau. Gwneir trefniadau arbennig rhwng yr ysgol a'r cartref pan fo disgybl sydd ag anabledau neu Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cychwyn yn yr ysgol. Cysyllter â'r Pennaeth am ragor o fanylion.

Mae'r ysgol yn sensitif i anghenion disgyblion sydd ag anabledau ac yn gwneud pob ymdrech i'w cynnwys ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol.

Gellir darllen cynnwys y cynllun drwy ymweld â www.ysgolabercaseg.org neu drwy ofyn am gopi gan yr ysgol.

Y CYFNOD SYLFAEN

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn ffordd o gyflwyno cwricwlwm a chontinwm dysgu eang ar gyfer plant rhwng 3 a 7 oed, a'i nod yw rhoi'r cychwyn gorau posibl i blant a chyfleoedd iddynt ddysgu a datblygu drwy weithgareddau ymchwilol ac ymarferol. Mae'n adeiladu ar yr hyn y mae plant yn gallu ei wneud ac ar yr hyn y maent hwy yn ei gyfrannu i'r amgylchedd dysgu.

SAITH MAES Y CYFNOD SYLFAEN

- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu
- Datblygiad Mathemategol
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- Datblygu'r Gymraeg
- Datblygiad Corfforol
- Datblygiad Creadigol
- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.

YSGOL IACH. Mae'r ysgol wedi cyflawni gofynion cam 5 ac yn gweithio tuag at gyflawni gofynion Cam 6.

YSGOL WERDD AC YSGOL ECO. Mae'r ysgol wedi cyflawni'r gwobr aur yn y cynllun Ysgolion Gwyrdd ac wedi ennill y Faner Werdd 1af Eco-Sgolion. 'Rydym yn hybu ail-gylchu, gofalu am yr amgylchedd a llawer o agweddau gwyrdd eraill fel rhan o fywyd beunyddiol yr ysgol. Sefydlwyd gardd ysgol gyda'r cynyrch yn cael ei werthu neu ei ddefnyddio gan y gogyddes neu yn y dosbarthiadau.

MASANACH DEG. Mae'r ysgol yn hyrwyddo Masnach Deg ac wedi ei chydabod fel 'Ysgol Masnach Deg'.

TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU

Mae sgiliau TG a Ch yn cael eu datblygu yn ymarferol ac yn cyfrannu i waith ar draws y cwricwlwm. Ymdrechwn i godi ymwybyddiaeth y plant o botensial y cyfrifiadur ac i ymdrin ag o yn hyderus a phwrpasol gan gyrraedd lefel uchel o wybodaeth, sgil a dealltwriaeth.



Rydym wedi buddsoddi yn helaeth mewn caledwedd a meddalwedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

ADDYSG GREFYDDOL

Cyflwynir Addysg Grefyddol yn unol â Maes Llafur Cytunedig yr Awdurdod Addysg Lleol. Ceisia Addysg Grefyddol yn yr ysgol wneud plant yn ymwybodol o'r cefndir crefyddol i safonau derbyniol ymddygiad a moesoldeb yn y wlad hon, yn derbyn gwahanol grefyddau amgylchfyd amlddiwylliannol yn agwedd bwysig o'r dysgu, ac y gall aelodau y gwahanol enwadau a'r crefyddau o fewn yr ysgol wneud cyfraniad cadarnhaol tuag ato.

Cynhelir gwasanaeth dyddiol yn unol â gofynion Deddf Addysg 1986. Fel arfer, mae cynulladau yn dilyn yn sylfaenol batrwm Cristnogol, ond maent hefyd yn achlysur i ddsbarth neu'r ysgol gyfan fod yn ymwybodol ohonynt eu hunain fel cymuned. Ni cheir unrhyw ymgais i drwytho disgyblion a chredoau penodol, er bod cyfleoedd i arsylwi ymarfer Cristnogaeth – ac yn achlysurol, gredoau eraill.

Mae'r achlysuron hyn yn bwysig os ydyw disgyblion am deimlo eu bod yn rhan gyflawn o gymuned yr ysgol a gobeithir y gallant oll fod yn bresennol yn ein gwasanaethau. Fodd bynnag, fel y caniateir o dan y Ddeddf Addysg, gall y rhieni hynny sy'n gwrthwynebu i'w plant gymryd rhan yn y gwasanaethau neu sy'n derbyn Addysg Grefyddol drefnu gyda'r Pennaeth iddynt gael eu hesgusodi rhag cymryd rhan ynddynt.

ADDYSG BYWYD A PHERTHNASOEDD

Yn unol â Deddf Addysg 1986, disgwylir i Gyrrff Llywodraethol ysgolion ystyried os dylai Addysg Bywyd a Pherthnasoedd fod yn rhan o'r cwricwlwm seciwlar. Os ydynt o'r farn y dylai Addysg Bywyd a Pherthnasoedd fod yn rhan o'r cwricwlwm, mae gofyn iddynt lunio ac adolygu datganiad ysgrifenedig o'u polisi o safbwynt cynnwys a threfniadaeth.

Penderfynodd y Corff Llywodraethu y dylai Addysg Bywyd a Pherthnasoedd fod yn rhan o'r cwricwlwm pan mae'n codi yng ngwaith y dosbarth neu os y codir unrhyw gwestiynau naturiol gan y plant. Os oes ymholiad gennych, dylech ymgynghori â'r Pennaeth ynghylch â datganiad y Llywodraethwyr ar y mater.

SIARTER IAITH GYMRAEG YSGOLION CYNRADD GWYNEDD

Mae Ysgol Abercaseg yn hyrwyddo nod y Siarter Iaith sef "arwain at gynnydd yn nefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. Mewn gair, cael y plant i siarad Cymraeg." Mae'r ysgol wedi ei achredu gyda'r wobwr Aur.

Gweledigaeth Ysgol Abercaseg yw y bydd pob plentyn yn rhugl yn y Gymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol gan ei defnyddio'n naturiol i gyfathrebu o ddydd i ddydd ac ymfalchio yn ein traddodiadau a'n hetifeddiaeth Cymreig.

Mae pob dosbarth yn defnyddio siart 'Dringo i gopa'r Wyddfa' i gofnodi cynnydd yn nefnydd cymdeithasol y disgyblion o'r Gymraeg. Mae 5 cam tua'r copa:

1. Gallu gofyn ac ateb cwestiwn yn y Gymraeg.
2. Siarad Cymraeg gyda ffrindiau bob amser yn y dosbarth.
3. Siarad Cymraeg gyda ffrindiau bob amser ar yr iard.
4. Siarad Cymraeg yn gywir.
5. Siarad Cymraeg yn rhugl a graenus.

POLISI IAITH

AMCANION CYFFREDINOL

Mae Awdurdod Addysg Gwynedd yn gweithredu polisi dwyieithog trwy holl ysgolion Gwynedd a hefyd yn datblygu polisi dwyieithog ar gyfer sefydliadau Addysg Bellach.

Yr amcan yw datblygu gallu disgyblion a myfyrwyr y Sir i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

Dylai holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r polisi iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth academaidd.

AMCANION PENODOL

Adeiladu ar y sylfeini â osodwyd i'r Gymraeg drwy addysg feithrin. Cadarnhau a datblygu mamiaith y plentyn sydd wedi dysgu Cymraeg ac i ddatblygu Saesneg i blant o gartrefi Cymraeg.

ASESU AC ADRODD

GWAITH CARTREF

Yn wythnosol bydd plant yn mynd â llyfrau darllen adref a byddant yn cael gwaith cartref 'sgwrsio'. Bydd disgyblion BI 2 yn cael prawf sillafu hefyd bob wythnos. Pan ddigwydd hynny gobeithir y bydd y cartref yn cydweithredu i hybu gwaith y plant.

Ambell i dro bydd gweithgarwch arbennig yn gofyn am wybodaeth gan rieni a pherthnasau a chymdogion, neu'n gofyn am waith holi a darganfod ar ran y plant. Sylweddolir mai cyfrifoldeb y cartref yw'r plentyn yn ystod yr oriau hyn ac mai yng ngoleuni'r cyfrifoldeb hwnnw y bydd rhieni yn cytuno neu'n anghytuno i gydweithredu.

O dro i dro fe all athro/athrawes ofyn i blentyn wneud gwaith ychwanegol er mwyn dileu rhyw wendid neu ganolbwyntio ar agwedd arbennig o'r gwaith. Bryd hynny gobeithir cael cydweithrediad llwyr y cartref ac anogaeth i'r plentyn i wneud y gwaith.

Bydd yr ysgol yn rhoi ystyriaeth i oedran, gallu ac anghenion y plentyn wrth osod gwaith cartref.

ASESU

Mae dyfodiad y Cyfnod Sylfaen wedi ein hysgogi i ail edrych ar ein dull o asesu ac adrodd i rieni. Mae asesu parhaol wedi bod yn rhan naturiol a phwysig o waith athrawon cydwybodol erioed. Mae hyn yn sail i baratoi gwaith addas ar gyfer eich plentyn chwi. Bydd yr asesiadau yma yn cael eu rhoi ym mhroffiliau'r plant.

Darperir adroddiad cynhwysfawr i rieni ar holl raglen waith y disgyblion yn flynyddol.

Yn ôl rhaglen y Cyfnod Sylfaen fe fydd profion darllen a mathemateg yn cael eu paratoi ar gyfer diwedd Cyfnod Allweddol 1 (blwyddyn 2). Bydd adroddiad llawn o lefel o gyrhaeddiad y disgyblion yn y gwahanol feysydd dysgu yn cael eu paratoi ar gyfer y rhieni erbyn diwedd y flwyddyn addysgol.

Yn fuan yn nhymor yr Hydref, bydd canlyniadau'r asesiadau blynyddoedd 2 ar gael i chwi yn yr ysgol drwy gysylltu â'r Pennaeth. Gweler cefn y Llawlyfr.

TREFN GWYNO

Mae'r Awdurdod Addysg Leol, yn unol â gofynion yr Ysgrifennydd Gwladol, dan Adran 23 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988, wedi sefydlu trefn ystyried cwynion am y modd y mae Cyrff Llywodraethu'r ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig. Mae'r drefn hon wedi ei hamlinellu mewn dogfen bwrpasol yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd ar gael yn yr ysgol. Darperir copi'n rhad ac am ddim, yn ôl y gofyn, i unrhyw rieni sy'n dymuno gwneud cynw dan y trefniadau, a gall yr Awdurdod ddarparu copi mewn iaith heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg os bydd hynny'n angenrheidiol. Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Pennaeth. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, a bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gwyn yn ffurfiol mewn achosion eithriadol.

Dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gŵyn gyda'r Pennaeth.



ADDYSG GORFFOROL

Mae'r ysgol, mewn partneriaeth â'r cartref, yn gyfrifol am ddatblygiad corfforol pob plentyn yn ogystal â'i ddatblygiad addysgol a moesol. Felly, cynhelir gwersi i'r plant yn neuadd yr ysgol ac ar yr iard. Bydd mangre'r gwersi'n dibynnu ar ba uned o waith bydd y dosbarth yn ymdrin ac ar y tywydd.

Ein nod yw datblygu cryfder, rheolaeth ac esthetrwydd y plant trwy eu cael i fod yn gorfforol weithgar. Byddent hefyd yn cael cyfleoedd i weithio'n annibynnol a chydweithio ag eraill ac i lunio a rheoli gemau eu hunain.

Yn ddibynnol ar y fangre, disgwylir i'r plant wisgo dillad priodol ar gyfer y gwersi. Golyga hyn newid cyflawn o'u gwisg uchaf, h.y. pâr o siortiau (dim 'Bermudas') a chrys T neu liotard yn unig ar gyfer y gampfa a phâr o bympiau/esgidiau ymarfer yn ychwanegol ar gyfer y buarth. Ni chaniateir gwisgo unrhyw bympiau/esgidiau ymarfer yn y gampfa ac eithrio'r plant sydd â chlefyd ar eu traed.

Ni chaniateir gwisgo modrwyau, clustlysau nag oriawr mewn unrhyw wers Addysg Gorfforol. Gofynnir yn garedig i'r rhieni hysbysu'r ysgol yn ysgrifenedig, os nad yw'r plentyn yn gallu cymryd rhan yn y wers.

CODI TAL AM WEITHGAREDDAU

Derbyn y Corff Llywodraethol, yn unol â gofynion Deddf Addysg 1988, na ellir codi tâl am y canlynol:

- i) mynediad i'r ysgol
- ii) yr addysg a roddir yn ystod oriau'r ysgol
- iii) defnyddiau/offer ar gyfer gwersi yn ystod oriau ysgol
- iv) gweithgareddau a gynhelir yn ystod oriau ysgol.

Rhagwelir y bydd rhai teithiau yn ystod oriau ysgol na fydd yn rhan hanfodol o'r gwaith cwrs ond a fydd yn brofiad llesol i'r disgyblion. Yn ôl Deddf Addysg 1988, er nad oes gan ysgol hawl i godi tâl am deithiau o'r fath, mae ganddi hawl i:



- i) ofyn am gyfraniad gwirfoddol tuag at gost o drefnu'r fath daith
- ii) ofyn i asiant allanol drefnu'r daith.

Awdurdodir y Pennaeth i ofyn am daliadau ar gyfer y canlynol:

- i) gwersi cerdd unigol yn ôl amodau'r Ddeddf - (Adran 39).
- ii) gweithgareddau a gynhelir y tu allan i oriau'r ysgol yn ôl amodau'r Ddeddf
- iii) mewn achosion lle achosir difrod i unrhyw ran o adeiladau'r ysgol yn dilyn ymddygiad disgyblion
- iv) pan fydd disgybl yn colli neu'n difrodi llyfr, cyfarpar neu eiddo sy'n perthyn i'r ysgol.



Mae hawl gan y Pennaeth a'r Corff Llywodraethol i ddileu gweithgaredd a drefnwyd os yw'n ymddangos y byddai cyfraniadau isel yn golygu colled sylweddol.

Gwynedd
Ysgol Abercaseg

		N	D	W	1	2	3	4	5	6	A
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	8.3	91.7	0.0
	Cymru	-	0.3	0.2	0.2	0.3	0.9	3.8	42.7	51.2	0.2

Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn y Gymraeg)	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	29.2	70.8	0.0
	Cymru	0.0	0.1	-	0.1	0.1	1.1	8.7	57.3	32.4	0.1

Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Saesneg)	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
	Cymru	0.1	0.4	0.3	0.2	0.4	1.7	10.3	54.5	31.8	0.3

Datblygiad mathemategol	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	4.2	29.2	66.7	0.0
	Cymru	-	0.3	0.2	0.2	0.3	1.2	9.0	58.4	30.0	0.3

Meysydd Dysgu Dewisol:

Datblygiad creadigol	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
----------------------	-------	-----	-----	-----	-----	-----	-----	-----	-----	-----	-----

Datblygiad corfforol	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
----------------------	-------	-----	-----	-----	-----	-----	-----	-----	-----	-----	-----

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
------------------------------------	-------	-----	-----	-----	-----	-----	-----	-----	-----	-----	-----

Datblygu'r Gymraeg	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
--------------------	-------	-----	-----	-----	-----	-----	-----	-----	-----	-----	-----

DCS **

Ysgol	95.8
-------	------

Gwelir uchod ganlyniadau asesiad athro diwedd Bl 2 , 2015.

RHAN 3

**GOFAL
BUGEILIOL**

RHAN 3

GOFAL BUGEILIOL

- **Ethos yr Ysgol**
- **Disgyblaeth**
- **Presenoldeb a phrydlondeb**
- **Absenoldeb o achos salwch**
- **Imiwneiddio**
- **Goruchwyllo**
- **Ymweliad anifeiliaid**
- **Amddiffyn plant**
- **Diogelwch**
- **Meddygol**
- **Cyswllt â'r Cartref**

ETHOS YR YSGOL

NOD

Sefydlu ysgol gyda'r gwerthoedd gorau, agweddau cyson a'r ymarfer gorau bosibl o fewn ein gallu, fydd yn fodd i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion.

AMCANION

1. Adlewyrchu'r cynhesrwydd a'r hapusrwydd a geir yn y cartrefi gorau yw ethos yr ysgol; ble mae'r plentyn yn cael ei barchu fel bod unigryw, ac yn ganolbwynt yr addysg.
2. Creu perthynas gyffelyb i dad neu fam dda rhwng yr athrawon a'r plant.
3. Ymgyrhaeddir at drefniadaeth dosbarth clir, gyda'r plant yn ymwybodol o reolau'r dosbarth ble cedwir atynt yn gyson. Mae hyn yn arwain at synnwyr cryfach o ddiogelwch i'r plant a'r athrawon. Ceisir bod yn deg a realistig pob amser i bawb gyd-fyw mewn cytgord. Drwy greu amgylchedd deinamig, symbylus a thawel, bydd yr hinsawdd briodol yn bodoli i ddysgu o bob math ddigwydd.
4. Ymdrinnir â'r plant gyda'r parch mwyaf er mwyn annog eu hunanhyder. Os yw'r plentyn yn gweld ei fod yn derbyn parch, a bod ei gyfraniad yn bwysig, ni ellir yna ond esgor ar hunan-barch ac yn ei dro parch at eraill.
5. Ceisir rhoi profiadau i'r plant sy'n berthnasol i'w bywydau, eu syniadau a'u lefel datblygiad, fydd yn fodd i ysgogi eu chwilfrydedd.
6. Gwneir ymdrech i arddangos gwaith y plant yn chwaethus gan roi statws iddo. Ceisir ei arddangos ochr yn ochr a gwrthrychau diddorol eraill.

DISGYBLAETH

Mae polisi'r Awdurdod ar ddisgyblaeth mewn ysgolion, ynghyd â pholisi'r ysgol, yn rheoli'r ffordd y disgyblir plant yn yr ysgol hon.

Mae'r drefn disgyblaeth yn seiliedig ar bolisi lle mae pob athro/awes yn gyfrifol am ymddygiad ei dd/dosbarth ei hun, ond, os oes angen, gellir cyfeirio'r disgybl i sylw'r Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth.

YMDDYGIAD

Mae disgwyl i bob disgybl gyfrannu at greu cymdeithas wâr yn yr ysgol drwy:


- i) fod yn feddylgar, yn garedig ac yn foneddigaidd yn ei berthynas â disgyblion eraill, holl staff yr ysgol, ac unrhyw ymwelwyr;
- ii) beidio â gwneud difrod bwriadol nac ymyrryd ag eiddo eraill, rhegi a defnyddio iaith anweddus, na bod yn anghwrtais nac ateb yn ôl;
- iii) wneud pob ymdrech i gadw'r ysgol a'i hamgylchedd yn daclus, rhoi ysbwriel yn y bin, a pheidio ag ysgrifennu ar y waliau;
- iv) beidio â dod â phethau personol i'r ysgol, e.e. teganau (oni ofynnir amdanynt gan athro/awes), a gemau (jewellery);
- v) geisio anelu at fyw yn iach, felly rydym yn annog ffrwythau/llysiau a llefrith/dŵr yn unig amser chwarae.

Mae gennym ddogfen bolisi gynhwysfawr ar ymddygiad, disgyblaeth a chosb yn yr ysgol.

Pan fo plentyn yn parhau i gam ymddwyn, gan amharu ar rediad naturiol yr ysgol, rydym yn ystyried, ac yn gweithredu, y gosb eithaf o wahardd plentyn, yn ôl canllawiau'r A.A.LI.

PRESENOLDEB A PHRYDLONDEB

- i) Mae mynychu'r ysgol yn rheolaidd wedi bod yn bwysig erioed. Heb hyn bydd ymdrechion yr athrawon a'r ysgol yn ofer.
- ii) Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar rieni i anfon eu plant i'r ysgol yn rheolaidd. Mae rhieni sy'n methu â chyflawni'r dyletswyddau hyn yn wynebu cael eu herlyn.
- iii) Mae'n gyfrifoldeb hefyd ar rieni i sicrhau fod eu plant yn cyrraedd yr ysgol mewn pryd, yn daclus, ac mewn cyflwr i'w dysgu.
- iv) Cyfrifoldeb y rhieni yw hysbysu'r ysgol am absenoldeb eu plentyn cyn gynted â phosib, ac i ddarparu unrhyw wybodaeth bellach pe bai ei angen. Bydd yr ysgol yn ffonio'r cartref os na cheir eglurhad erbyn 9.30 y.b.
- v) Gall yr ysgol alw am gymorth y Swyddog Lles a hysbysu'r Awdurdod Addysg pan fydd presenoldeb afreolaidd disgybl yn achosi pryder.
- vi) Yr ysgol yn unig, yng nghyd-destun y gyfraith, a all gymeradwyo absenoldebau. Gosodir absenoldebau mewn dau gategori - AWDURDODEDIG ac ANAWDURDODEDIG. Ni ellir caniatáu absenoldeb heb i chi gysylltu â'r ysgol, trwy lythyr neu alwad ffôn.



Mae'r canlynol yn cael eu hystyried fel ABSENOLDEBAU AWDURDODEDIG - gwaeledd, apwyntiadau meddygol neu ddeintyddol, a mynychu gŵyl grefyddol lle mae rhieni'r plant yn aelodau.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o ABSENOLDEB ANAWDURDODEDIG - siopa yn ystod oriau ysgol, cyfrifoldebau cartref, aros adref i warchod, gwyliau estynedig yn ystod tymor ysgol.

- i) Dylai'r rhieni sy'n trefnu gwyliau ar wahân i wyliau'r ysgol ystyried calendr yr ysgol, a goblygiadau hyn i'r plentyn. Ceir ffurflen ganiatâd gan y pennaeth. Ni chaniateir mwy na 10 diwrnod o wyliau ymhob blwyddyn ysgol.
- ii) Mae'r gofrestr yn cael ei gau am 9.30 y bore ac am 1.15 y prynhawn.
- iii) Os yw disgybl yn dymuno cael ei esgusodi o wersi addysg gorfforol/ gemau/nofio am resymau meddygol, rhaid iddi/o gael nodyn gan ei riant (am gyfnod byr) neu dystysgrif feddygol (am gyfnod estynedig neu barhaol).

GADAEI TIR YR YSGOL

Ni chaiff unrhyw ddisgybl fynd oddi ar dir yr ysgol yn ystod oriau ysgol, oni chaiff ganiatâd swyddogol. Dylai rhieni wneud cais am ganiatâd o'r fath mewn llythyr at y pennaeth.

FFIGYRAU PRESENOLDEB: 2014-15 94.8%
Absenoldebau Awdurodedig 5.1%

ABSENOLDEB O ACHOS SALWCH

Cyfarwyddyd ar Reoli Heintiau mewn Ysgolion Gwynedd (Chwefror 2012)

Brechau a heintiau croen	Dylid aros i ffwrdd o'r ysgol, meithrinfa neu warchodwr plant am gyfnod o:	Sylwadau
Tarwden y traed (Athlete's foot)	Dim	Nid yw tarwden y troed yn gyflwr difrifol. Argymhellir triniaeth
Brech yr ieir	Pum niwrnod o ddechrau'r frech	<i>GWELER: Plant sy'n Agored i Niwed a Staff Beichiog</i>
Doluriau annwyd, (Herpes simplex)	Dim	Osgoi cusanu a chysylltiad â'r doluriau. Nid yw doluriau annwyd yn ddifrifol ar y cyfan ac maent yn hunangyfngol.
Brech goch yr Almaen (rwbela)	Chwe diwrnod o ddechrau'r frech	Mae modd ei hatal drwy imiwneiddio (MMR x 2 ddos). <i>GWELER: Staff Beichiog</i>
Llaw, traed a'r geg	Dim	Cysylltwch â'ch Tim Diogelu Iechyd lleol os effeithir ar nifer fawr o blant. Gellir ystyried gwahardd mewn rhai amgylchiadau.
Impetigo	Hyd nes bod y clwyfau'n groffenog ac wedi gwella, neu 48 awr ar ôl dechrau cael triniaeth wrthfotig	Mae triniaeth wrthfotig yn cyflymu'r broses wella ac yn lleihau'r cyfnod heintus
Y Frech Goch	Pedwar diwrnod ar ôl dechrau'r frech	Mae modd ei hatal drwy imiwneiddio (MMR x 2 ddos). <i>GWELER: Plant sy'n Agored i Niwed a Staff Beichiog</i>
Molluscwm contagioswm	Dim	Cyflwr hunangyfngol
Tarwden (Ringworm)	Nid oes angen gwahardd fel arfer	Mae angen triniaeth
Brech rosynnaidd (babanod)	Dim	Dim
Clefyd crafu	Gall y plentyn ddychwelyd ar ôl y driniaeth gyntaf	Mae angen i 'r rhai sydd yn rhannu cartref a'r rhai sydd â chysylltiad agos gael triniaeth
Y dwymyn goch	Gall y plentyn ddychwelyd 24 awr ar ôl dechrau triniaeth wrthfotig briodol	Argymhellir triniaeth wrthfotig ar gyfer y plentyn yr effeithir arno
Y Foch Goch. Parfofeirws B19	Dim	<i>GWELER: Plant sy'n Agored i Niwed a Staff Beichiog</i>
Yr Eryr	Gwahardd dim ond os oes rhedlif yn dod o'r frech ac nad oes modd ei gorchuddio	Gall achosi brech yr ieir ymhlith y rhai nad oes ganddynt imiwneidd h.y. y rhai nad ydynt wedi cael brech yr ieir. Caiff ei ledaenu gan gysylltiad agos iawn ac o gyffwrdd ag e. Os oes angen rhagor o wybodaeth amoch, cysylltwch â'ch Tim Diogelu Iechyd lleol. <i>GWELER: Plant sy'n Agored i Niwed a Staff Beichiog</i>
Dafad a Ferwca	Dim	Dylid gorchuddio ferwca mewn pyllau nofio, campfeydd ac ystafelloedd newid

Dolur rhydd a salwch chwydu	Dylid aros i ffwrdd o'r ysgol, meithrinfa neu warchodwr plant am gyfnod o:	Sylwadau
Dolur rhydd a/neu chwydu	48 awr ar ôl yr achos diwethaf o'r dolur rhydd neu chwydu	
<i>E. coli</i> O157 VTEC	Dylid gwahardd am 48 awr o'r achos diwethaf o'r Dolur Rhydd	Gall fod angen gwahardd pellach ar gyfer pobl ifanc o dan 5 oed a'r rhai sy'n cael anhawster cadw at arferion hylendid
Teiffoid [a paradeiffoid] (twymyn enterig)	Gall fod angen gwahardd pellach ar gyfer rhai plant tan nad ydynt yn alldaflu mwyach	Mae'n bosibl hefyd y bydd y cyfarwyddyd hwn yn berthnasol i rai cysylltiadau a allai fod angen clirio meicrofiologol arnynt
Shigela (dysentri)		Cysylltwch â'ch Tim Diogelu Iechyd lleol am ragor o gyngor
Cryptosporidiosis	Gwahardd am 48 awr o'r achos diwethaf o ddolur rhydd	Mae gwahardd rhag nofio'n ddoeth am bythefnos ar ôl i'r dolur rhydd ddod i ben

Heintiau anadlol	Dylid aros i ffwrdd o'r ysgol, meithrinfa neu warchodwr plant am gyfnod o:	Sylwadau
Y Ffliw	Hyd nes bod gwellhad	<i>GWELER: Plant sy'n Agored i Niwed</i>
Twbercwlosis	Ymgynghorwch â'ch Tim Diogelu Iechyd lleol bob amser	Mae angen cysylltiad agos hir dymor er mwyn iddo ledaenu
Y Pas (pertwsis)	Pum niwrnod o ddechrau triniaeth wrthfotig neu 21 diwrnod o ddechrau'r salwch os nad oes triniaeth wrthfotig	Mae modd ei atal drwy frechu. Ar ôl triniaeth, mae'n bosibl y bydd pesychu nad yw'n heintus barhau am wythnosau lawer. Bydd eich Tim Diogelu Iechyd lleol yn trefnu unrhyw olrhain cyswllt angenrheidiol.
Heintiau eraill	Dylid aros i ffwrdd o'r ysgol, meithrinfa neu warchodwr plant am gyfnod o:	Sylwadau
Llid pilen y llygad	Dim	Os bydd achos/clwstwr yn codi, cysylltwch â'ch Tim Diogelu Iechyd lleol.

(conjunctivitis)		
Difftheria	Mae gwahardd yn hanfodol. Ymgynghorwch â'ch Tim Diogelu Iechyd lleol bob amser	Mae'n rhaid i gysylltiadau teuluol gael eu gwahardd hyd nes y byddant yn cael eu clirio gan eich Tim Diogelu Iechyd lleol i ddychwelyd. Mae modd ei atal drwy frechu. Bydd eich Tim Diogelu Iechyd lleol yn trefnu unrhyw olrhain cyswllt angenrheidiol.
Twymwn y chwarennau (Glandular fever)	Dim	
Llau pen	Dim	Argymhellir triniaeth dim ond mewn achosion lle bo llau byw wedi'u gweld.
Hepatitis A	Gwahardd tan saith diwrnod ar ôl dechrau'r clefyd melyn (neu saith diwrnod ar ôl dechrau'r symptomau os nad yw'r clefyd melyn yn bresennol)	Mewn achos o hepatitis A, bydd eich Tim Diogelu Iechyd lleol yn cynghori ar fesurau rheoli.
Hepatitis B, C, HIV/AIDS	Dim	Mae Hepatitis B a C a HIV yn feirysau a gludir yn y gwaed nad ydynt yn heintus drwy gysylltiad achlysurol. Ar gyfer glanhau gollyngiadau hylif o'r corff. <i>GWELER: y ddogfen 'Dysgwch Wers i Germau' (Llywodraeth Cymru, 2006)</i>
Meningitis / septicaemia	Hyd nes bod gwellhad	Mae modd atal Meningitis C drwy frechu. Nid oes unrhyw reswm dros wahardd brodyr neu chworydd na chyswllt agos ag eraill. Bydd eich Tim Diogelu Iechyd lleol yn cynghori ar unrhyw gamau angenrheidiol.
Meningitis oherwydd bacteria arall	Hyd nes bod gwellhad	Mae modd atal meningitis hib a niwrococo drwy frechu. Nid oes unrhyw reswm dros wahardd brodyr neu chworydd nac eraill â chyswllt agos â'r achos. Bydd eich Tim Diogelu Iechyd lleol yn cynghori ar unrhyw gamau angenrheidiol.
Meningitis feirysol	Dim	Salwch llai difrifol. Nid oes unrhyw reswm dros wahardd brodyr neu chworydd nac eraill â chyswllt agos â'r achos. Nid oes angen olrhain cyswllt.
MRSA	Dim	Mae hylendid da, yn enwedig golchi dwylo a glanhau amgylcheddol, yn bwysig er mwyn lleihau unrhyw berygl o ledaenu. Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'ch Tim Diogelu Iechyd.
Clwy'r Pennau (Mumps)	Gwahardd plant am bum niwrnod ar ôl dechrau'r chwyddo	Mae modd ei atal drwy frechu (MMR x 2 ddos).
Edeulyngyr	Dim	Argymhellir triniaeth ar gyfer y plentyn a'r rhai sy'n dod i gysylltiad â'r cartref.
Tonsilitis	Dim	Mae llawer o achosion, ond mae'r rhan fwyaf o achosion oherwydd feirysau ac nid oes angen cyffuriau gwrthfotig.

Plant sy'n agored i niwed

Mae rhai cyflyrau meddygol yn gwneud i rai plant fod yn agored i ddal heintiau nad ydynt prin byth yn ddifrifol i'r rhan fwyaf o blant; mae'r rhain yn cynnwys plant sy'n cael triniaeth ar gyfer lewcemia neu ganserau eraill, sy'n cael dosys uchel o steroidau ac sydd â chyflyrau sy'n gostwng eu himiwnedd yn sylweddol.

Staff beichiog

Os yw menyw feichiog yn datblygu brech neu mewn cysylltiad uniongyrchol â rhywun sydd â brech a allai fod yn heintus, dylai meddyg archwilio hyn. Daw'r risg mwyaf i fenywod beichiog o heintiau o'r fath oddi wrth eu plentyn/plant eu hunain, yn hytrach na'r gweithle.

IMIWNEIDDIO Imiwneiddio yw'r ffordd fwyaf diogel a mwyaf effeithiol o amddiffyn plant rhag clefydau difrifol. Rydym yn annog rhieni i imiwneiddio eu plant neu drefnu dosiau dilynol pellach drwy'r meddyg teulu. I gael y cyngor diweddaraf ar imiwneiddio, ewch i www.immunisation.nhs.uk, neu gall y gwasanaeth iechyd ysgolion gynghori ar yr amserlen imiwneiddio genedlaethol ddiweddaraf.

2 fis oed	<ul style="list-style-type: none"> • Difftheria, tetanws, pertwsis, polio a Hib (DTaP / IPV / Hib) • Niwrococol (PCV) 	<ul style="list-style-type: none"> • Un pigiad • Un pigiad
3 mis oed	<ul style="list-style-type: none"> • Difftheria, tetanws, pertwsis, polio a Hib (DTaP / IPV / Hib) • Meningitis C (Men C) 	<ul style="list-style-type: none"> • Un pigiad • Un pigiad
4 mis oed	<ul style="list-style-type: none"> • Difftheria, tetanus, pertwsis, polio a Hib (DTaP/IPV/Hib) • Niwrococol (PCV) • Meningitis C (Men C) 	<ul style="list-style-type: none"> • Un pigiad • Un pigiad • Un pigiad
12-13 mis	<ul style="list-style-type: none"> • Hib / meningitis C • Y Frech Goch, Clwy'r Pennau a Rwbela (MMR) • Niwrococol (PCV) 	<ul style="list-style-type: none"> • Un pigiad • Un pigiad • Un pigiad
Tair blynedd a phedwar mis neu'n fuan ar ôl hynny	<ul style="list-style-type: none"> • Difftheria, tetanws, pertwsis, polio (DTaP / IPV)neu dTaP / IPV • Y Frech Goch, Clwy'r Pennau a Rwbela (MMR) 	<ul style="list-style-type: none"> • Un pigiad • Un pigiad
Rhwng 13 a 18 oed	<ul style="list-style-type: none"> • Tetanws, difftheria, a pholio (Td/IPV) 	<ul style="list-style-type: none"> • Un pigiad
Merched rhwng 12 a 13 oed	<ul style="list-style-type: none"> • Canser ceg y groth a achosir gan feirws papiloma dynol math 6, 11, 16 & 18. Brechlyn HPV. 	<ul style="list-style-type: none"> • Tri dos dros chwe mis

POLISI GORUCHWYLIO

NOD

Sicrhau diogelwch y plant, a chadw safon dderbyniol o oruchwyliaeth, trefn a disgyblaeth.

Mae'r ysgol yn gweithredu trefn goruchwyllo plant yn ystod y cyfnodau canlynol:

1. Cyn dechrau'r ysgol 10 munud (8.50 - 9.00)
2. Egwyl y bore 15 munud (10.30 - 10.45)
3. Egwyl y pawns 15 munud (2.05 - 2.15)
4. Diwedd y pawns 10 munud (3.00 - 3.10)

Bydd drws yr ysgol yn agor am 8.50 y.b.

Bydd yr athrawon a'r cymorthyddion yn y dosbarthiadau erbyn 8.50 y.b.

Nid yw'r ysgol yn gyfrifol am unrhyw beth â ddigwydd cyn 8.50, nac ar ôl 3.10 y.p.

CANLLAWIAU:

a) Trefniadau tywydd sych:

1. Mae gennym drefniadau goruchwyllo ar system rota.
2. Bydd yr athro/awes ar ddyletswydd goruchwyllo'r iard drwy gydol y cyfnod.
3. Bydd athrawes a cymorthyddion dosbarth ar gael yn ystod pob egwyl i ddelio a mân anafiadau neu unrhyw anhaf arall.
4. Gwneir trefniadau i gyflenwi pan fo unrhyw aelod o staff yn absennol.

b) Trefniadau tywydd gwlyb

1. Mae'r cymorthyddion, yr athrawes ar ddyletswydd a Staff Ategol yn goruchwyllo yn y dosbarthiadau.

c) Amser Cinio:

1. Goruchwyllo y plant gan Staff Atodol y Gegin.
2. Y mae un athrawes hefyd ar ddyletswydd a chymorthyddion dosbarth.

YMWELIAD ANIFEILIAID

Yn unol â chanllawiau 'Dysgwch wers i germau! Canllawiau ynghylch Rheoli Haint ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd' ni chaniateir anifeiliaid yn yr ysgol fel rhan o waith y dosbarth oni bai:

- bod yr anifeiliaid wedi cael eu harchwilio gan filfeddyg a'i fod wedi datgan eu bod yn iach, a'u bod wedi derbyn yr holl frechiadau perthnasol cyn dod i'r ysgol
- fod gan y perchnogion a'r rhai sy'n edrych ar ôl yr anifeiliaid yswiriant priodol
- fod yr anifeiliaid yn ddiogel i fod yn agos at blant a nid yn fygythiad i iechyd
- fod rhieni wedi rhoi eu caniatad i'w plant gael bod yn agos at yr anifeiliaid.

DIOGELWCH

1. Dylai Disgyblion barchu rheolau syml lechyd a Diogelwch yr ysgol bob amser.
2. Mae rheolau tân yn amlwg ym mhob ystafell, a cheir ymarferion tân bob tymor.
3. Cyfrifoldeb y plentyn yw unrhyw eiddo personol. Byddem yn gwerthfawrogi marcio popeth (dillad, bagiau, pyrsiau a.y.y.b.) yn glir gydag enw'r plentyn.
4. Ni ddylid gadael unrhyw beth gwerthfawr yn yr ystafell gotiau, yn hytrach dylid rhoi i'r athro/awes priodol yn syth.
5. Disgwylir i unrhyw un sy'n euog o ddifrodi eiddo'r ysgol wneud iawn am y niwed.
6. Ni chaniateir dringo ar dir yr ysgol - yn wal na ffens.

MEDDYGOL



Disgwylir i rieni hysbysu'r ysgol o unrhyw gyflwr meddygol neu glinigol a allai effeithio ar fywyd ysgol plentyn.

Os oes rhaid i'ch plentyn gymryd ffisig yn yr ysgol, yna rhaid i chi ofyn am y ffurflen bwrpasol o'r ysgol.

CYSWLLT Â'R CARTREF

Gwahoddir rhieni i gymryd diddordeb bywiog yn addysg eu plant, ac i feithrin cysylltiad iach rhwng yr ysgol a'r cartref.

Gobeithiwn am gydweithrediad a chefnogaeth y rhieni ymhob gweithgaredd ychwanegol a drefnir. Mae amryw glwb ar ôl ysgol - Darllen, Gemau, Ffrangeg a TGCh, Celf a Drama.

Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau sy'n agored i holl ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 yr ysgol, sydd, ym marn y Pennaeth, yn aeddfed ac yn barod i gymryd rhan ynddynt.

Ni all yr ysgol gymryd cyfrifoldeb am oruchwylio plant ar derfyn unrhyw weithgaredd fel hyn, a gofynnir i rieni/gwarcheidwaid sicrhau eu bod yn gwneud trefniadau addas i gyrchu'r plant adref.

Anfonir holiaduron allan i rieni yn rheolaidd yn gofyn barn am yr ysgol.

